# Herio Bwlio

## Canllawiau Hawliau, Parch, Cydraddoldeb

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ymgynghoriad ar gyfer ysgolion uwchradd



# Helo

**Mae addysg yn bwysig iawn. Dylech fod yn rhydd i ddysgu a ffynnu yn yr ysgol heb deimlo'n ofnus nac yn bryderus. Mae bwlio yn atal hynny rhag digwydd.**

Ni ddylai neb gael ei fwlio. Mae bwlio yn gwneud i bobl frifo, teimlo'n anniogel a theimlo nad ydynt yn cael eu parchu. Gall adael pobl yn teimlo'n ddiymadferth ac ar eu pennau eu hunain, fel nad oes ganddyn nhw unrhyw bŵer i newid pethau.

Mae Llywodraeth Cymru eisiau i bob plentyn a pherson ifanc gael eu parchu, teimlo'n ddiogel a mwynhau eu hamser yn yr ysgol.

Dyna pam rydyn ni wedi ysgrifennu'r **Canllawiau Hawliau, Parch, Cydraddoldeb** newydd hyn. Mae'n helpu ysgolion i herio bwlio, ac... **rydyn ni eisiau gwybod beth ydych chi'n ei feddwl.**

**Felly, ar ddiwedd y llyfryn hwn, mae yna 5 cwestiwn y gallwch chi eu hateb.**



## Eich hawliau

Mae gennych chi hawliau. Mae'r UNCRC (Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn) yn dweud:

- mae gennych chi hawl i gael eich diogelu rhag niwed
- mae gennych chi'r hawl i addysg.

## Y Canllawiau Hawliau, Parch, Cydraddoldeb hyn

Mae'r canllawiau hyn yn dweud wrth lywodraethwyr ysgolion, ysgolion a staff beth:

- mae'n 'rhaid' iddynt wneud, oherwydd mae ganddynt ddyletswydd gyfreithiol i
- rydyn ni'n 'disgwyl' iddyn nhw wneud, oherwydd mai dyma'r camau gorau i'w cymryd
- rydym ni'n ei 'argymell', ond nid oes rhaid iddyn nhw wneud hynny os oes ganddyn nhw reswm da
- rydyn ni'n eu 'cynghori' i'w wneud, ond does dim rhaid iddyn nhw wneud.



# Beth yw bwlio?

Mae bwlio yn golygu pethau gwahanol i wahanol bobl, ond i ni...

**Mae bwlio yn ymddygiad gan berson neu grŵp sydd:**

- **yn golygu brifo, dychryn neu gynhyrfu rhywun**
- **yn parhau i ddigwydd**
- **yn digwydd yn bwrpasol**
- **yn targedu rhywun oherwydd pwy ydyn nhw, sut maen nhw'n edrych neu beth maen nhw'n ei wneud.**



# Mathau o fwlio Gall bwlio fod:



**Yn gorfforol**

taro, cicio, gwthio, baglu neu ddifrodi eiddo rhywun.



**Yn llafar**

galw enwau ar rywun, pryfocio, bygwth neu ddweud pethau i'w tynnu i lawr.



**Yn emosiynol**

lledaenu sibrydion, siarad y tu ôl i gefn rhywun, eu gadael allan neu eu hanwybyddu yn fwriadol.



**Yn seiliedig ar berthynas**

ceisio amharu ar gyfeillgarwch rhywun, teulu neu sut mae eraill yn eu gweld.



**Yn rhywiol**

cyffwrdd heb ganiatâd, gwneud bygythiadau, jôcs neu awgrymiadau rhywiol diangen.



## Bwlio Ar-lein

Gall bwlio ar-lein (a elwir weithiau'n seiberfwlio) gynnwys:

- postio pethau niweidiol, pethau sy'n achosi embaras neu bethau preifat am rywun
- anfon negeseuon cast neu fygythiadau
- defnyddio cyfrifon ffug i dargedu neu wawdio eraill
- rhannu, golygu neu greu delweddau (gan gynnwys rhai rhywiol neu a gynhyrchir gan ddeallusrwydd artiffisial).



## Bwlio sy'n gysylltiedig â rhagfarn

Gall hyn dargedu un person neu grŵp oherwydd eu bod yn wahanol, p'un a yw'n wir ai peidio. Mae bwlio sy'n gysylltiedig â rhagfarn yn golygu cael eich bwlio oherwydd:

- hil, crefydd neu ddiwylliant
- diwylliant neu gefndir teuluol
- anghenion dysgu ychwanegol neu anabledd
- hunaniaeth rhywedd a'r ffordd rydych chi'n edrych neu'n gweithredu — trawsryweddol
- cyfeiriadedd rhywiol - heterorywiol, hoyw, lesbiaidd neu ddeurywiol
- rhywiaeth – rhyw rhywun.

## Nid yw popeth yn fwlio.

Nid yw bwlio yn golygu:

- pryfocio rhyngoch chi a'ch ffrindiau sy'n mynd o'i le ond dim ond yn digwydd unwaith
- ffraeo neu ddadlau gyda ffrind
- dadl sy'n digwydd unwaith
- pan nad yw rhywun eisiau bod yn ffrindiau.

**Pan fydd rhywun yn brifo neu'n cynhyrfu pobl eraill, mae'n cael ei alw yn ymddygiad gwael. Os yw rhywun yn parhau i wneud hyn yn fwriadol, mae'n fwlio.**

## Cellwair

Efallai y bydd pobl yn ceisio esgusodi bwlio trwy ddweud mai jôc yn unig ydyw neu mai dim ond cellwair ydyw. Mae'n gellwair pan:

- mae pawb dan sylw yn deall ei fod yn gellwair
- mae pawb yn meddwl ei fod yn ddoniol
- mae pawb yn teimlo eu bod wedi'u cynnwys ac yn ddiogel.

**Nid cellwair mohono pan fydd rhywun yn teimlo ei fod wedi cael ei frifo neu'n teimlo embaras, wedi'i eithrio neu'n anniogel.**

### Gweithredu cadarnhaol

Rydym ni'n argymell bod ysgolion yn defnyddio ein diffiniad o fwlio i benderfynu sut y byddent yn diffinio bwlio ar gyfer eu hysgol.

Rydym ni'n disgwyl i ysgolion eich cynnwys chi a dysgwyr eraill wrth wneud hyn ac wrth ysgrifennu cynlluniau i roi diwedd ar fwlio.

**Os yw'n anodd siarad â rhywun yn yr ysgol neu gartref, cysylltwch â Meic.**

Mae Meic yn llinell gymorth i blant a phobl ifanc, felly gallwch chi siarad â rhywun am bryderon neu ofidiau unrhyw ddydd, rhwng 8am a hanner nos.

Mae Meic yn rhoi cyngor a chefnogaeth. Gallant hefyd gysylltu â'ch ysgol i siarad am y bwlio os ydych chi eisiau iddynt wneud hynny.

www.meiccymru.org

☎ 08088 023456





Camau cadarnhaol ar gyfer...

# Perthnasoedd iach, parchus

## Delio â bwlio

**Rhaid i ysgolion gadw dysgwyr yn ddiogel a hyrwyddo eu lles.**

Rydym ni'n disgwyl i ysgolion wneud y canlynol:

- meddu ar bolisïau a chynlluniau sy'n nodi sut y byddant yn herio bwlio
- cael arweinwyr cryf sy'n 'arwain trwy esiampl'
- sicrhau bod dysgwyr yn teimlo'n ddiogel, yn saff ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi
- hyrwyddo hawliau plant, a hyrwyddo iechyd a lles dysgwyr
- addysgu cwricwlwm sy'n diwallu anghenion dysgwyr
- meddu ar weithdrefnau cyfathrebu da a gweithio'n dda gyda Rhieni a Gofalwyr
- cefnogi eu staff.

Dylai ysgolion wneud y canlynol:

- rhoi cefnogaeth i ddysgwyr ffynnu, dysgu a datblygu'n emosiynol
- gweithio gyda'r GIG, gwasanaethau a sefydliadau eraill i gefnogi dysgwyr.

## Delio â bwlio ar-lein

Rydym ni'n disgwyl i ysgolion ddelio â bwlio ar-lein. Dylai ysgolion wneud y canlynol:

- cefnogi ac addysgu dysgwyr ar sut i gadw'n ddiogel ar-lein
- cofnodi a rhoi gwybod am fwlio ar-lein i'r darparwr ar-lein, gwasanaeth neu'r awdurdod lleol
- casglu lluniau sgrin a thystiolaeth o fwlio ar-lein cyn gynted â phosibl gan y gallai ddiflannu.

## Cadw plant a phobl ifanc yn ddiogel

Rhaid i ysgolion ddweud wrth yr Arweinydd Diogelu yn yr awdurdod lleol os yw rhywun yn dioddef niwed oherwydd bwlio.

Mae'n rhaid iddyn nhw ddweud wrth yr heddlu os ydyn nhw'n meddwl nad yw rhywun yn ddiogel.

## Cefnogi dysgwyr anabl

Rhaid i ysgolion sicrhau bod dysgwyr anabl yn cael eu hawl i addysg.

Rydym ni'n disgwyl i ysgolion ddelio â bwlio a diwallu anghenion dysgwyr anabl a dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.

## Cefnogi dysgwyr LHDTC+

Rydym ni'n disgwyl i ysgolion gefnogi dysgwyr LHDTC+ a hyrwyddo perthnasoedd parchus ac iach.

## Delio â hiliaeth a gwahaniaethu

Rydym ni'n disgwyl i ysgolion wneud y canlynol:

- cofnodi unrhyw wybodaeth am hiliaeth a'i riportio i'r Arweinydd Diogelu yn yr awdurdod lleol
- bod yn ymwybodol o newidiadau mewn cymunedau lleol fel y gallant herio bwlio'n seiliedig ar ragfarn yn gyflym.

## Delio â bwlio rhywiaethol

Rydym ni'n disgwyl i ysgolion ddelio â bwlio rhywiaethol fel aflonyddu, cyffwrdd, 'uwchsbecian', 'lawrsbecian' a defnyddio iaith rhywiaethol. Mae hyn yn digwydd i ferched a bechgyn. Dylent fod yn ymwybodol o agweddau neu stereoteipiau yn yr ysgol sy'n rhoi pobl i lawr, neu'n eu niweidio oherwydd eu rhyw.



Camau cadarnhaol ar gyfer...

# Cyfrifoldebau

**Rhaid i lywodraethwyr ysgolion sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn ddiogel.**

Rydym ni'n disgwyl iddynt wneud y canlynol:

- bod yn onest, yn deg ac yn barod i esbonio eu penderfyniadau
- nodi targedau, nodau'r ysgol a sut y byddant yn eu cyflawni
- meddu ar ddatganiad o egwyddorion fel y gall y pennaeth arwain yr ysgol
- hyrwyddo'r canllawiau hyn.

## Polisïau gwrthfwlio

Rydym ni'n disgwyl i ysgolion gael polisi gwrthfwlio. Rydym ni'n disgwyl i'r holl athrawon a staff wybod beth yw polisi gwrthfwlio eu hysgol a beth i'w wneud pan fydd dysgwr yn rhoi gwybod am fwlio.

## Cynlluniau gwrthfwlio

Dylai ysgolion gael cynllun gwrthfwlio.

Fel rhan o ddatblygu eu cynllun, dylai ysgolion wneud y canlynol:

- cynnwys a gwrando ar ddysgwyr, rhieni/gofalwyr a chymuned gyfan yr ysgol
- gosod nodau clir, realistig
- codi ymwybyddiaeth o'r cynllun gyda staff a dysgwyr
- sicrhau bod staff yn cael hyfforddiant.

Ar ôl lansio'r cynllun, dylai ysgolion wneud y canlynol:

- gwrando ar adborth gan ddysgwyr, teuluoedd a staff
- ei wirio yn rheolaidd a gwneud newidiadau os oes angen
- defnyddio gwybodaeth i wella sut maen nhw'n nodi bwlio a gwella cefnogaeth.

## Bwlio y tu allan i'r ysgol

Mae gan benaethiaid y pŵer i gamu i mewn os yw bwlio yn digwydd y tu allan i'r ysgol.

Dylai'r ysgol ddweud wrth ddysgwyr sut maen nhw'n disgwyl iddynt ymddwyn pan fyddant:

- mewn gweithgareddau wedi'u trefnu gan yr ysgol
- mewn profiad gwaith ar deithiau ysgol neu ddigwyddiadau chwaraeon
- ar y ffordd i'r ysgol neu oddi yno
- yn gwisgo eu gwisg ysgol y tu allan i'r ysgol.

Dylai ysgolion edrych ar bob sefyllfa, penderfynu a yw'n fwlio a pha gamau sydd angen iddynt eu cymryd.



# Herio bwlio

## Rhoi gwybod am fwlio

Dylai ysgolion gael llawer o ffyrdd o roi gwybod am fwlio fel:

- cael pobl i siarad â nhw fel cefnogwyr cyfoedion hyfforddedig neu 'gyfeillion', staff y gallant ymddiried ynddynt, cymorth bugeiliol neu gynghorwyr
- lleoedd maen nhw'n teimlo'n ddiogel sy'n dawel ac yn breifat i siarad
- Cardiau 'Hoffwn i'm hathro wybod'
- blychau adborth.

Dylai ysgolion wneud y canlynol:

- sicrhau bod staff wedi'u hyfforddi ac yn gwybod y gall dysgwyr ddweud wrth unrhyw aelod o staff y maent yn ymddiried ynddynt
- cefnogi unrhyw un sy'n gweld bwlio yn digwydd, hyd yn oed os nad ydyn nhw'n gwneud dim i'w atal
- sicrhau bod ganddynt leoedd diogel, preifat i ddysgwyr siarad am unrhyw fwlio maen nhw wedi'i brofi
- annog dysgwyr i gadw tystiolaeth o'r hyn sydd wedi digwydd a dweud wrth rywun maen nhw'n ymddiried ynddynt fel y gallant eu helpu.

## Delio â bwlio

Rydym ni'n disgwyl i ysgolion gael ffyrdd sefydlog, dibynadwy o herio bwlio a chefnogi dysgwyr.

Dylai staff ddewis pa ffordd maen nhw'n meddwl sydd orau ar gyfer pob sefyllfa. Gall hyn gynnwys defnyddio:

- **Cyfryngiad** – mae'r bobl dan sylw yn dod at ei gilydd, yn siarad ac yn cytuno ar yr hyn sydd angen digwydd.
- **Dulliau adferol** – mae pobl yn cymryd cyfrifoldeb am yr hyn maen nhw'n ei wneud ac yn ceisio unioni unrhyw niwed sy'n cael ei achosi.
- **Adeiladu gwydnwch** – helpu dysgwr i ymdopi ac adfer.
- **Cymorth gan gymheiriaid** – mae dysgwyr yn helpu eraill i ymdopi ac adfer.
- **Sancsiynau ysgol** — mae rheolau neu gosb yn cael eu rhoi ar waith i roi diwedd ar fwlio. Gallai hyn effeithio ar berson, dosbarth neu grŵp blwyddyn gyfan.

Dylai dysgwyr fod yn rhan o wneud penderfyniadau am yr hyn maen nhw am iddo ddigwydd.

## Beth sy'n digwydd pan nad yw'r ymyrraeth yn gweithio?

Rydym ni'n disgwyl i ysgolion weithio gyda dysgwyr a'u rhieni neu ofalwyr. Dylent weithio gyda'i gilydd i sefydlu ffordd newydd ymlaen.

## Cefnogi pawb

Gallai plant a phobl ifanc sy'n bwlio eraill wneud hynny:

- oherwydd bod ganddyn nhw broblemau yn eu bywydau eu hunain nad ydyn nhw'n gwybod sut i ymdopi â nhw
- er mwyn pŵer, balchder a phoblogrwydd i fod yn rhan o grŵp mewnol cryf
- er mwyn osgoi cael eu bwlio eu hunain.

Rydym ni'n disgwyl i ysgolion

- ddeall pam y gall hyn ddigwydd a beth sy'n achosi bwlio
- sicrhau bod dysgwyr sy'n bwlio yn cael cefnogaeth i newid.



Camau cadarnhaol ar gyfer...

# Monitro a chwynion

Dylai ysgolion feddu ar systemau i riportio a chofnodi bwlio. Dylent weithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod modd defnyddio'r wybodaeth i ddod o hyd i batrymau ymddygiad a stopio bwlio.

## Mynd â phethau ymhellach

Os yw dysgwr, rhieni neu ofalwyr yn teimlo nad yw athro yn cymryd y sefyllfa o ddifrif ac nad yw'n gwella, gallant ddweud wrth athro arall, pennaeth blwyddyn neu'r pennaeth. Gallant hefyd ofyn i ffrind, rhiant neu ofalwr fynd gyda nhw i sicrhau eu bod yn cael gwrandawiad.

Os nad ydyn nhw'n teimlo bod yr ysgol yn cymryd sefyllfa o ddifrif, gallant gwyno i lywodraethwyr yr ysgol. Mae'n rhaid iddynt ymchwilio i'r sefyllfa. Dylid cofnodi a diweddaru gwybodaeth fel y gallant ymchwilio a gwneud penderfyniadau.



# Mae pawb yn cael eu cynnwys

Mae gan bawb rôl wrth wneud yr ysgol yn lle diogel, cyfeillgar. Rhaid i ysgolion weithredu - ond gall dysgwyr, teuluoedd a staff wneud hynny hefyd.

Os ydych chi angen rhywun i siarad â nhw neu helpu gyda sut rydych chi'n teimlo, mae gan eich ysgol gynghorwyr a all helpu.

Gofynnwch i athro neu rywun yn yr ysgol, byddant yn esbonio popeth sydd angen i chi ei wybod ac yn eich rhoi mewn cysylltiad â rhywun y gallwch chi siarad ag ef.



## Elusennau gwrthfwlio

**Bullies Out**
Elusen gwrthfwlio yng Nghymru. Mae eu e-fentoriaid yn cynnig cefnogaeth ar-lein.
www.bulliesout.com

mentorsonline@bulliesout.com

**Anti-Bullying Alliance**
Gwybodaeth i blant, pobl ifanc, rhieni/gofalwyr ac ysgolion.
anti-bullyingalliance.org.uk

**Kidscape**
Elusen gwrthfwlio.
kidscape.org.uk

**The Diana Award**
Llysgenhadon ifanc wedi'u hyfforddi i helpu eraill.
antibullyingpro.com



## Llinellau cymorth a chyngor

**Y Samariaid**
Lle diogel ichi siarad unrhyw bryd.
☎ 116 123
☎ Llinell Iaith Gymraeg: 0808 164 0123
www.samaritans.org

**RETHINK**
Cyngor a gwybodaeth i bobl â phroblemau iechyd meddwl.
☎ 0300 500 0927

rethink.org/help

**MENCAP Cymru**
Llinell Gymorth o ddydd Llun i ddydd Gwener, 9a.m. – 5p.m.
☎ 0808 8000 300
wales.mencap.org.uk

**Childline**
Mae Childline yn cynnig cyngor.
☎ 0800 1111
www.childline.org.uk

**Kooth**
Gwasanaeth cwnsela.
www.kooth.com

**CALL**
Llinell Gyngor a Gwrando'r Gymuned
www.callhelpline.org.uk

**Mae yna becyn cymorth sydd â rhagor o wybodaeth a help os ydych chi ei eisiau.**

**I gael rhagor o wybodaeth ewch i** wefan Hwb

## Rhieni a Gofalwyr

**Family Lives**
Llinell gymorth gyfrinachol fforymau Rhieni/Gofalwyr
☎ 0808 800 2222

**Parentzone**
Cymorth a chyngor i rieni neu ofalwyr
parentzone.org.uk.

**Young Minds**
Iechyd meddwl pobl ifanc. llinell gymorth rhieni
☎ 0808 802 5544
youngminds.org.uk

## Materion ar-lein

**Internet Matters**
Cyngor ar faterion ar-lein i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.
www.internetmatters.org.uk

**Childnet International**
Pob agwedd ar ddiogelwch ar-lein.
www.childnet.com

**Hwb**
Adnoddau a dolenni i'ch cadw'n ddiogel ar-lein.
hwb.gov.wales/zones/online-safety/learners/

## Rhwydweithiau cyngor a chymorth

**Internet Watch Foundation**
I roi gwybod am ddelweddau anghyfreithlon o blant.
iwf.org.uk

**Victim Support**
Adrodd am Droseddau Casineb yng Nghymru.
www.reporthate.victimsupport.org.uk

**Child Exploitation and Online Protection Centre (CEOP)**
Os amheuir cam-drin neu ecsbloetio plant yn rhywiol.
www.ceop.police.uk

**NSPCC**
Os ydych chi neu blentyn arall mewn perygl uniongyrchol, peidiwch ag oedi – ffoniwch 999 neu ffoniwch ni
☎ 0808 800 5000

www.nspcc.org.uk

**Mental Health Matters Wales**
mhmwales.org.uk

**Heads Above the Waves**
Cymorth i bobl ifanc sy'n profi iselder neu hunan-niweidio.
hatw.co.uk/straight-up-advice

# Diolch am ddarllen hyn.

## Nawr mae'n bryd dweud wrthym beth ydych chi'n ei feddwl.

Atebwch y cwestiynau ar y dudalen nesaf.

## Cwestiynau

**1. Ydych chi'n gwybod am gynllun gwrthfwlio eich ysgol?**

◯ Ydw ◯ Nac ydw Sylwadau

**2. Ydych chi'n gwybod gyda phwy y gallwch chi siarad os ydych chi'n poeni am fwlio?**

◯ Ydw ◯ Nac ydw Sylwadau

**3. Os bydd rhywun yn gas neu'n eich bwlio chi neu'n bwlio eich ffrind, ydych chi'n teimlo'n iawn yn dweud wrth oedolyn dibynadwy?**

◯ Ydw ◯ Nac ydw ◯ Ddim yn gwybod Sylwadau

**4. Ydych chi'n meddwl y byddai'r oedolyn hwnnw yn delio â'r bwlio'n briodol?**

◯ Ydw ◯ Nac ydw ◯ Ddim yn gwybod Sylwadau

**5. Ydych chi'n meddwl bod y canllawiau hyn yn esbonio sut y gallwch chi gael help os ydych chi'n cael eich bwlio?**

◯ Ydw ◯ Nac ydw ◯ Ddim yn gwybod Sylwadau

**6. Ydych chi'n meddwl bod y canllawiau hyn yn hawdd i'w deall?**

◯ Ydw ◯ Nac ydw ◯ Ddim yn gwybod Sylwadau

**7. Ydych chi'n meddwl bod y canllawiau hyn yn cynnwys ac yn cefnogi pawb?**

◯ Ydw ◯ Nac ydw ◯ Ddim yn gwybod Sylwadau

**Anfonwch eich atebion i:**

Lles a Diogelu
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NQ

rightsrespectequalityguidanceconsultation@llyw.cymru

erbyn 31 Gorffennaf 2025

# Eich Preifatrwydd

Dyma'r manylion cyfreithiol am eich preifatrwydd gan ein bod ni'n casglu gwybodaeth gennych chi.

## Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ac ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad.

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Y sail gyfreithlon ar gyfer prosesu gwybodaeth yn yr ymarfer casglu data hwn yw ein tasg gyhoeddus; hynny yw, arfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru (Erthygl 6(1)(e)).

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol. Yn achos ymgynghoriadau ar y cyd, mae'n bosibl y bydd hyn hefyd yn cynnwys awdurdodau cyhoeddus eraill. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth a'i bod yn bosibl y bydd Llywodraeth Cymru o dan rwymedigaeth gyfreithiol i ddatgelu gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data gweler y manylion cyswllt isod:

**Y Swyddog Diogelu Data:**

Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
dataprotectionofficer@llyw.cymru

**Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:**

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire, SK9 5AF
0303 123 1113
ico.org.uk

This document is also available in English. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

© Hawlfraint y Goron 2025 WG51172